PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 35 Awst 29, 2024 50c.

# Mallwyd

'Cymwynaswyr neu yn hytrach arwyr tawel yr Ofalaeth.'

Rydym mor freintiedig yng Ngofalaeth Ardal Dolgellau a Dinas Mawddwy am y bobol sydd yn torchi eu llewys yn dawel heb ddisgwyl sylw na chydnabyddiaeth.

Ym Mallwyd fe gawn cymaint o fendith trwy waith clodwiw a diflino Mrs Eirian Jones a Mrs Olwen Jones yn cynnal ysgol Sul ffyniannus a chynhwysol. Yn y llun uchod gwelir y criw sy'n dod at ei gilydd cyn iddynt dorri am seibiant haeddiannol dros yr haf.

Dyma Mr Joni Jones, cymwynaswr gweithgar sy'n parhau, eto mewn modd tawel a diymhongar i dwtio gardd Tabernacl, Dolgellau hefo strimar- ac yntau bellach dros ei 90! Dwi'n siŵr bod pob gofalaeth a chapel yn gwerthfawrogi eu cymwynaswyr tawel. Gobeithio y cânt gyfle i fwynhau'r haf.

**Euron Hughes**

# Mathew 19:14

*A'r Iesu a ddywedodd, Gadewch i blant bychain, ac na waherddwch iddynt ddyfod ataf fi: canys eiddo'r cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.*

Ym 1985, gwelodd gweinidog cynorthwyol o'r enw Wayne Tesch a'i wraig, Diane, fod angen darparu gobaith i blant sy'n derbyn gofal yn Costa Mesa, California. Fe wnaethon nhw greu gwersyll haf wythnos o hyd ar gyfer plant 6-12 oed sy'n derbyn gofal. Ar ôl y pum mlynedd gyntaf o gynnal gwersylloedd trwy eu heglwys, sylweddolodd Parchg Tesch fod yr angen yn fwy eang na dim ond Costa Mesa. Felly ym 1990, gadawodd Wayne ei swydd yn yr eglwys i ffurfio a dod yn Brif Swyddog Gweithredol yr elusen newydd, Royal Family KIDS Camp Inc. O 1990-2008, tyfodd y sefydliad yn gyson, gan wasanaethu rhagor o blant bob blwyddyn a rhoi mwy o arweinwyr o eglwysi i wasanaethu plant mewn gofal. Fe wnaeth Royal Family Kids fireinio ei raglen hyfforddi fel y byddai ei genhadaeth yn y pen draw - i wasanaethu pob plentyn mewn gofal 6-12 oed.

## Gwersylloedd

Eleni, cynhelir 2 wersyll Starfish yma yng Nghymru, sef Gwersyll Starfish Caerdydd a Gwersyll Starfish Aberdâr. Er mwyn codi arian tuag at wersyll haf i blant yn y system gofal yn Aberdâr a'r ardal leol, cynhaliwyd Bore Coffi Starfish yn Saron, Creunant ar fore Sadwrn 27 Gorffennaf. Bydd y gwersyll haf yn rhoi cyfle i 30 o blant o

*parhad ar dudalen 2*

# CAPEL DRWS-Y-COED

Ar ddydd Sadwrn 22 Mehefin, aeth aelodau a chyfeillion Cymdeithas y Penrhyn, Penrhyn-coch ar eu trip blynyddol. Dyffryn Nantlle oedd y gyrchfan y tro hwn o dan arweiniad medrus Dr Bleddyn Huws o Adran y Gymraeg, Prifysgol, Aberystwyth – yntau'n frodor o'r ardal. Er i ni ymweld â nifer o lefydd â chysylltiadau llenyddol, megis Tŷ'r Ysgol, Rhyd-ddu a Chae'r Gors, Rhosgadfan rhaid i mi gyfaddef mai'r hyn a wnaeth argraff arnaf ac a erys yn y cof yw stori Capel Drws-y-Coed.

### Hanes yr achos

Codwyd y capel cyntaf ym 1836 i gynulleidfa o Fedyddwyr ac Annibynwyr ond ni pharhaodd yr undeb yn hir – aeth yn ddrwg rhwng yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr a daeth yr achos yn eiddo i'r Annibynwyr. Helaethwyd y capel ym 1878 ac yr oedd tua hanner cant o aelodau yn yr eglwys.

*Yr hen gapel*

Ond ar 17 Chwefror, 1892, disgynnodd craig fawr, yn pwyso tua 20 tunnell o ochr Clogwyn y Barcud trwy'r do'r capel gan ei ddifrodi..



*Y difrod i do'r capel*

Symudwyd ymlaen yn syth i gael capel newydd a sicrhawyd prydles gan y tirfeddiannwr ar ddarn o dir gyferbyn â'r hen gapel. Costiodd y capel newydd tua £700. Rhoddodd perchennog chwarel Penyrorsedd lechi am ddim ar gyfer to'r capel.




*Y graig ar safle'r hen gapel*

Ym 1962 daeth prydles y capel i ben, ond yn hytrach na chau'r drws, prynwyd y les gan Stad y Faenol am £100.

Bu'r Brodyr Francis (Griffith Francis (1876–1936) ac Owen Francis (1879–1936) yn byw yng Nghlogwyn Brwnt, Drws-y-Coed. Byddai'r ddau frawd yn canu mewn neuaddau ledled Cymru a thu hwnt a hwy oedd y rhai cyntaf i gymryd rhan mewn cyngerdd Cymraeg ar y radio. Mab un o'r brodyr oedd Dewi Francis, a fu'n brifathro yn ysgol gynradd Llanfawr, Caergybi. Bûm yn dysgu dau o blant Dewi – Hefin ac Eluned yn ysgol uwchradd Caergybi.

Mae capel Drws-y-coed yn dal ar agor gyda 15 o aelodau, 6 o gyfeillion sy'n mynychu'n rheolaidd a rhai o'r ardal gyfagos sy'n ymuno â'r gynulleidfa o dro i dro ac mae'r capel bach yn talu eu tâl aelodaeth i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

### Oedfaon 2025

Cynhelir gwasanaethau am 2 o'r gloch y pnawn bob yn ail wythnos o fis Mai tan ddiwedd Hydref ac eisoes mae trefn Gwasanaethau 2025 wedi eu cwblhau:

**Mai 25** – Y Bon. Robert Morris
**Mehefin 8** – Parchg Dewi Morris

*parhad ar dudalen 7*




*Plac Y Brodyr Francis ar y wal yn y capel– Owen (chwith), Bob Owen, eu cyfeilydd yn y canol a Griffith (de). Bu Bob Owen yn organydd yng nghapel Drws-y -Coed am dros hanner can mlynedd.*

## Mathew 19:14 – *parhad*

gefndiroedd amrywiol (megis plant sy'n derbyn gofal, plant mewn gofal maeth, y rhai sy'n dioddef o gamdriniaeth a thrawma nawr neu yn y gorffennol) wythnos o hwyl a chwerthin.

Daeth tyrfa o bobl i gefnogi ein Bore Coffi Starfish – ac roedd hyn yn golygu cymaint i ni! Codwyd £672.50 tuag at yr achos arbennig yma – Starfish Kids Camp Aberdâr. Am fwy o wybodaeth am Royal Family Kids/Starfish Alliance, ewch i: starfish.org.uk

**Rhys Locke**

Yr Adran Gydenwadol

AWST 29 2024 RHIF 183

# Tystiolaeth yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf

Bob blwyddyn bydd gan Cytûn bresenoldeb amlwg ar faes yr Eisteddfod, gydag uned enfawr â lle i dros 120 o bobl eistedd. Fel arfer, bydd te a choffi ar gael, oedfaon a seminarau'n cael eu cynnal, siop lyfrau helaeth a gofod i waith plant. Fodd bynnag eleni, gan fod y maes yn dipyn llai, dim ond gofod bach a ganiatawyd – i arddangos llyfrau diweddar, bwrdd gweithgaredd ar gyfer y plant, ac arddangosfeydd gan rai o'n mudiadau Cristnogol. O'r uned honno llwyddwyd i rannu dros ddwy fil o gopïau o'r efengylau a thestamentau drwy garedigrwydd Newyddion Da i Bawb, Byddin yr Iachawdwriaeth a Chymdeithas y Beibl. Llwyddwyd hefyd i anfon tua 300 o gardiau post at Aelodau Seneddol newydd San Steffan yn gofyn iddyn nhw sicrhau heddwch a chyfiawnder yn ein byd. Yn ogystal, roedd yn ffenest siop i werthu rhai o'r llyfrau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer y brifwyl.

Gwelwyd prif ymdrech yr eglwysi eleni yn cael ei chanoli yn Eglwys St Catherine ynghanol y dre ym Mhontypridd. Yno daeth tua 15 mudiad Cristnogol ynghyd i arddangos, gan gynnwys arddangosfa 'Beibl mewn Gwlân' wedi ei pharatoi gan Fyddin yr Iachawdwriaeth fel rhan o'u dathliadau'n nodi 150 mlynedd o weithio yng Nghymru.

Buom yn hynod ffodus i gael cefnogaeth y ficer lleol, Charlotte Rushton, a'i thîm, a roddodd groeso anhygoel yno wrth i ni feddiannu'r eglwys am yr wythnos. Roedd gennym ofod arbennig i weini te a choffi a theisennau cri, a braf oedd croesawu pob oed yno, yn Eisteddfodwyr a phobl lleol. Buom hefyd yn ffodus o gael cymorth Tim a Helen Williams am yr wythnos gyfan yn croesawu a gofalu am y lluniaeth yn yr eglwys.

Bob dydd am 1.00 cawsom oedfa hyfryd yng nghorff y brif eglwys, gyda gwahanol fudiadau ac enwadau yn arwain. Cafwyd oedfa gymun yn ogystal fore Mercher, dan ofal yr Esgob Mary Stallard o Landaf. Diolch i Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl am drefnu'r oedfaon hyn ar ein cyfer bob dydd. Cafwyd cyfeiliant gan gitarydd, pianydd a band pres Byddin yr Iachawdwriaeth yn ystod yr wythnos.

Bore Sul, cynhaliwyd oedfa yn y prif bafiliwn ar y Maes hefyd, ond rhaid cydnabod mai siomedig oedd gweld llai na chant o bobl yn bresennol yn yr oedfa, a hynny mewn pafiliwn yn dal dros ddwy fil o bobl. Diolch i Geraint Rees am ei arweiniad, ac am gyfraniadau cerddorol Kizzy Crawford a Lloyd Macey. Cawsom hefyd offeren dan ofal y Cylch Catholig, a hyfryd oedd

Band Byddin yr Iachawdwriaeth yn cyflwyno eitemau

Y criw gymerodd ran yn noson cofio Dewi Arwel Hughes

Cath Woolridge yn arwain oedfa

Kathryn Stowers yn arwain oedfa gyda'r band

Yr offeren o dan arweiniad Edwin Regan

Meilyr Geraint yn arwain oedfa

Y band yn perfformio tu allan i Eglwys St Catherine

Meilyr Geraint a Sian Wyn Rees yn cyfeilio

Panel holi a drefnwyd gan Athrofa Padarn Sant a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Tystiolaeth yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf*
*(parhad o dudalen 1)*

cael cwmni'r Esgob Edwin Regan i arwain honno. Amserol hefyd oedd medru cynnal gwylnos ar faes yr Eisteddfod dan arweiniad Mererid Hopwood gyda chyfraniadau gan Gwyneth Glyn ac Ifor ap Glyn.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau trafod yn yr eglwys hefyd, gan gynnwys sesiwn 'Y Cwestiwn Mawr' o dan ofal cyfeillion Athrofa Padarn Sant a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Cafwyd cyflwyniadau am waith Cymorth Cristnogol, cynllun gweddi Cymdeithas y Beibl, gwaith A Rocha a gwasanaeth mabwysiadu plant Dewi Sant. Cafwyd sesiynau Hawlio Heddwch a chyflwyniad gan fudiad Cofleidio'r Dwyrain Canol, yn ogystal ag eitem gerddorol gan Sioned Webb ar y delyn a'i ffrind o Syria yn chwarae offeryn traddodiadol y wlad, yr Eid.

Daeth nifer i'r eglwys i weld y ffenestri lliw hynafol, a'r rheini'n ffenestri Cymreig yn adrodd hanes y ffydd Gristnogol yng Nghymru. Trefnwyd saith gosodiad blodau hefyd fel rhan o ŵyl flodau ar gyfer yr Eisteddfod.

Lansiwyd sawl llyfr, gan gynnwys *Byw'r Weddi*, cyfrol ar Weddi'r Arglwydd, sef addasiad Gwilym Wyn Roberts o gyfrol Trystan Owain Hughes. Cafwyd lansiad hefyd yn eglwys Bedyddwyr y Temple yn y dref mewn noson a drefnwyd gan Arfon Jones i gofio a choffáu ei gyfaill Dewi Arwel Hughes. Mawr yw ein diolch i Wyn a Christine James am eu gwaith hwythau'n cwblhau ac yn golygu'r gyfrol ar gyfer ei lansio. Mae *Gair Duw ar Lafar Gwlad* yn cynnig esboniad ar yr holl ymadroddion sy'n rhan o'n geirfa bob dydd sydd â'u tarddiad yn y Beibl.

Diolch am y cyfle i dystio yn ein prifwyl, am bob cydweithrediad gan gynifer o eglwysi'r fro ac am eu parodrwydd i wirfoddoli drwy weini te ac arwain addoliad a sesiynau. Mae'n debyg mai mewn cae yn Wrecsam y byddwn ni'r flwyddyn nesaf, ond diolch am y cyfle unigryw yma a gafwyd eleni i fod yn rhan o eisteddfod â'r dref yn ganolbwynt y cyfan.

*Aled a Delyth Davies,*
*trefnyddion digwyddiadau Cytûn*

Mary Stallard yn arwain oedfa

Rosa Hunt ac Ed Kaneen yn arwain oedfa

Trystan Owain Hughes yn lansio ei gyfrol *Byw'r Weddi*

Cyfarfod lansio cyfrol *Byw'r Weddi*

Cynan Llwyd yn arwain oedfa

Yr wylnos o dan arweiniad Mererid Hopwood, gydag eitemau gan Ifor ap Glyn a Gwyneth Glyn



Geraint Rees ac eraill yn arwain oedfa'r bore o'r pafiliwn

Eitem gerddorol ar y delyn a'r eiud

Criw yn mwynhau paned yn Eglwys St Catherine

## DILLAD GOBAITH

**YN RHOI GOBAITH AC URDDAS I'N CYMUNEDAU**

**MAE ANGEN RHODDION AR FRYS AR GYFER BABANOD A PHLANT**



Rydyn ni'n rhoi dillad o ansawdd da i unigolion a theuluoedd sydd mewn tlodi, mewn angen neu mewn argyfwng yn ein cymunedau yn ne Cymru. Mae dillad yn hanfodol i'n cadw'n gynnes ac i roi inni ymdeimlad o werth ac urddas. Allwch chi helpu teulu sydd mewn angen drwy gyflwyno rhodd neu roi o'ch amser?

Cysylltwch â ni: 07423050392
Gobaithclothing@gmail.com

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 1 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Rees, Efail Isaf

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 1 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Llinos Mary Jones, Gwyddelwern

Rhwydwaith Daniel Rowland Network

Diwrnod Daniel Rowland – 6 Medi 10:30-16:00
Canolfan Weinidogaeth Union, Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4DX

Yn cynnwys:

- Addoliad (cyfieithu ar y pryd ar gael)
- Trafod hyfforddiant diwinyddol Cymraeg, adnoddau, a phlannu eglwysi
- Dysgu am amrywiol gyd-destunau Cymreig
- Cyflwyniadau gan Nathan Munday a Gwilym Tudur
- Derbyn casgliad J. Elwyn Davies

Manylion llawn & chofrestru:

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Parchedig T. Howell Mudd (1941-2024)

Ganwyd Thomas Howell Mudd yn 1941 yn un o chwech o blant i Ben a Joyce Mudd, Neuaddlwyd ger Aberaeron. Merch o bentref Hermon, Cynwyl oedd Joyce ac roedd Ben o bentref Llangynog ger Bancyfelin. Yn ogystal â Howell ganwyd iddynt bump o blant arall sef Arthur, Dewi, Betty, Bryn a Carol. Ond roedd yna drasiedi i ddod i ran y teulu pan laddwyd Bryn mewn damwain ffordd ag yntau ond yn naw mlwydd oed.

Gan mor anodd oedd hi i'w fam fynd heibio'r man ble digwyddodd y ddamwain symudodd y teulu i Fancyffordd, Llandysul a dechreuodd Howell yn ysgol Capel Mair yn bedair blwydd oed. Fel y dywed Howell am ei blentyndod yn ei hunangofiant, 'Digon tlawd oedd hi arnom, ond yr oeddem yn gyfoethog iawn o gariad a gofal rhieni.'
Daeth ergyd arall i'r teulu pan gollwyd Dewi i'r dwymyn doben ac yntau ond yn 20 mlwydd oed.

## Dychwelyd i'r gwreiddiau

Rhai blynyddoedd wedyn cynigwyd tŷ i'r teulu yn Hermon, Cynwyl er mwyn i fam Howell gael dod 'nôl at ei gwreiddiai gan mai merch Tŷ Rhos oedd hi. Roedd mynd i'r capel yma yn rhan annatod o fagwraeth y teulu ac roedd Howell yn cydnabod i weinidog Hermon ar y pryd, sef O. T. Evans osod sylfeini cywir iddo ar ddechrau ei daith ysbrydol. Ysgol Cynwyl Elfed oedd yr ysgol erbyn hyn. Ers yn fachgen ifanc roedd llygaid Howell wedi bod yn ei boeni a pharhau a wnaeth hynny yn ysgol Cynwyl.

## Torquay

Bu Miss Thomas, gwraig o Lanelli a oedd yn gweithio i gymdeithas y deillion yn arbennig o dda i Howell gan ddod o hyd i le iddo mewn ysgol yn Torquay ar gyfer y deillion ac yntau yn 16 mlwydd oed. Yna symudodd ymlaen i ysgol yn Letchworth ger Llundain lle'r oedd pobl a gwahanol anableddau yn derbyn prentisiaeth.

## Birmingham

Ar ôl dod adref a chael cyfnod o ansicrwydd dyma gael galwad ffôn i ddweud bod swydd iddo yn Birmingham a hynny yn y diwydiant moduro gyda chwmni oedd yn cyflogi 5,000 o bobl o wahanol genhedloedd. Cyflogai'r cwmni hefyd bobl gydag amrywiol anableddau gan gynnwys pobl fel Howell ag amhariad ar eu llygaid

## Caerdydd

Yn Birmingham roedd Howell yn derbyn y *Cambrian News* bob wythnos gan ei chwaer. A dyma weld hysbyseb am swydd yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Ymgeisiodd ac er mawr syndod iddo fe gafodd y swydd. Dyma gyfnod Iorwerth Peate fel pennaeth Sain Ffagan ac roedd Howell wrth ei fodd bod 'nôl yng Nghymru a chael cyfle i weithio yn yr Amgueddfa Werin. Fe gafodd le i aros yn Canton a dysgu gyrru yn y cyfnod hwn. Erbyn hyn roedd wedi mynd â'i aelodaeth i gapel Ebeneser, Caerdydd. Ac yn y cyfnod hwn fe wnaeth deimlo'r alwad i fynd i'r weinidogaeth o dan arweiniad Emlyn Jenkins.

## Ymateb i'r alwad

Ym 1965 cychwynnodd ar gwrs pedair blynedd yn y Coleg Coffa. Mae Howell yn disgrifio 1970 fel blwyddyn hapusaf ei fywyd. Dyma'r flwyddyn y priododd gyda Mary. Roedd Mary, neu Mary Gwyther fel yr oedd yr adeg hynny, yn hanu o ardal Pont y Brenin, Gorseinon ac yn gweithio fel *shipping clerk* i gwmni Americanaidd 3M yng Ngorseinon. Roedd y ddau ohonynt wedi cwrdd rhai blynyddoedd cynt pan oedd Howell yn pregethu yn Ebeneser, Gorseinon ac wedi cael gwahoddiad i de at Mary a'i mam. Priodwyd hwy yn Ebeneser, Gorseinon gyda'r diweddar Gareth Thomas, a oedd yn y Coleg Coffa gyda Howell, yn gwasanaethu ac Emlyn Jenkins yn cynorthwyo.

## Ordeinio

Roedd 1970 yn flwyddyn bwysig am reswm arall. Dyma'r flwyddyn yr ordeiniwyd Howell i fod yn weinidog yng nghapeli Dihewyd a Cilcennin gyda Pisgah, Talgarreg yn gofyn i gael ymuno yn yr ofalaeth yn ogystal. Yn y cyfnod hwn y sefydlwyd Cymdeithas Coits Cymru a gwahoddwyd Howell i fod yn llywydd ar y gymdeithas. Roedd wrth ei fodd gyda coits ac yn browd iawn ei fod wedi ei ethol yn llywydd Cymdeithas Coits Cymru. Cafodd Mary ei phenodi i swydd yn y feddygfa yn Aberaeron a bu'r blynyddoedd hyn yn gyfnod hapus iawn i'r ddau ohonynt. Gwnaethant gyfeillion gydol oes a fu yn gyda nhw ar hyd y blynyddoedd o hynny ymlaen.

## Dyffryn Aman

Ar ôl 13 o flynyddoedd yn Nyffryn Aeron dyma symud i Ddyffryn Aman pan dderbyniodd alwad i fod yn weinidog yn y Gwynfryn, Rhydaman ac yn Seion, Llandybie. Ac un o'r uchafbwyntiau oedd ymweliad Desmond Tutu gyda Rhydaman yn 1986 pan ddaeth i bregethu yng Ngellimanwydd. Roedd Howell a Mary yno'r diwrnod hwnnw a chafwyd cyfle i gwrdd â Desmond Tutu gydag eraill dros ginio ar ôl yr oedfa.

Yn y cyfnod hwn y prynwyd tŷ yn Stryd Marged, Rhydaman a chafodd Mary swydd gan Gwmni Sain yn ei ganolfan dosbarthu yn Rhydaman.

## Dyffryn Taf

Yn 1989 daeth cyfle i fod yn weinidog mewn ardal wledig unwaith eto a derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar gapeli Brynmyrnach, Cefn-y-pant, Glandŵr a Llwynyrhwrdd gyda Hebron a Nebo, Efail-wen yn ymuno yn ddiweddarach. Treuliwyd ugain mlynedd hapus yn Nyffryn Taf ac un o'r uchafbwyntiau oedd pan gafodd gyfle i fynd yn weinidog am dri mis i Batagonia a Mary yn cael mynd gydag ef. Wedi tua ugain mlynedd yn y cylch bu rhaid i Howell ddewis fel y dywed ei hunan, rhwng ymddeol fel gweinidog neu roi Mary mewn cartref gofal. Dewisodd ymddeol a symudodd y ddau 'nol i'r tŷ yn Stryd Marged yn Rhydaman. Edrychodd Howell ar ôl Mary yn dyner ac yn ofalus hyd ei marwolaeth yn 2014. Collodd ei bartner oes ar ôl 44 mlynedd fwyaf hapus gyda'i gilydd.

## Talwrn

Yn y cyfnod yma yn Nyffryn Taf daeth yn aelod o dîm Beca ar *Dalwrn y Beirdd* Radio Cymru. Roedd wrth ei fodd yn bod yn rhan o'r tîm ac roedd yn ei ystyried yn fraint. Ac roedd iddo enw da fel limrigwr ar y Talwrn. Yn ddiweddarach daeth yn aelod o Ysgol Farddol Caerfyrddin. Dyma englyn a ysgrifennwyd yn y dyddiau diwethaf yma gan un o aelodau o dîm Beca gyda Howell, sef Wyn Owens, Mynachlogddu. Englyn ardderchog sydd wedi ysgrifennu yn iaith Sir Benfro

Bu acw yn nhîm Beca'n – ein hawlio
A'i ddoniolwch sidan.
'Da Mr Mudd we'r trydan.
Ŵr hoff a thipyn o ran.

''Da Mr Mudd we'r trydan,' medd Wyn Owens. Roedd yna ryw drydan yn perthyn i Howell. Byddai'n denu pobl ato, yn hawlio eu sylw gyda'i bersonoliaeth, ei hiwmor a'i lais.

(Bydd ail ran y deyrnged hon yn y rhifyn nesaf o'r *Tyst*.)

**Guto Llywelyn**

# Barn Annibynnol

## ‘Patrwm o Gristion ... o Siapan’

Beth yw ystyr ‘byw fel Cristion’? Dilyn geiriau Iesu i’r llythyren, siŵr iawn, fel caru ein cymydog fel ni ein hunain. Gallen ni ddod i ben â hynny, tebyg iawn, ond beth am ei garu e’n fwy na’n teulu ein hunain, a bod yn barod i aberthu ein hunain? Does dim eisie mynd dros ben llestri, oes e?

Er hynny, mae Cristnogion gloyw wedi llwyddo i gyflawni gofynion Crist i’r eithaf, o’r merthyron cynharaf ymlaen. O’r ugeinfed ganrif, hyd yn oed, daw enwau fel Martin Luther King a Dietrich Bonhoeffer i’r meddwl. Yn anffodus, dyn ni ddim mor gyfarwydd â Christnogion mawr â’u gwreiddiau mewn diwylliannau anewropeaidd. Ac un o’r amlycaf o’r rhain yw Toyohiko Kagawa.

### Toyohiko Kagawa

Ganwyd Kagawa yn 1888 i deulu cefnog yn ninas Kobe, Siapan. Bu farw ei rieni pan oedd yn ifanc ac fe’i hanfonwyd i ffwrdd i ysgol breifat. Yn ystod y cyfnod hwn daeth trobwynt i’w fywyd. Fe’i mabwysiadwyd gan ddau genhadwr o athrawon, yr Americanwyr Harry Myers a Charles Logan, ac o dan eu dylanwad nhw, heblaw am ddysgu Saesneg, cafodd Kagawa dröedigaeth at Gristnogaeth Brotestannaidd.

Aeth y llanc peniog ymlaen i astudio diwinyddiaeth mewn seminari yn Siapan cyn croesi’r Môr Tawel i awyr dyrchafol Prifysgol Princeton. Dywedodd wedyn am y profiadau hynny mai er iddo glywed darlithiau athronyddol a syniadau dwys am natur Duw a Christ, gellid crynhoi ei holl weledigaeth Gristnogol o fewn dameg y Samariad Trugarog.

### Dros y tlodion

Dyna hefyd oedd sylfaen bywyd Kagawa o hynny ymlaen. Er bod gyrfa academaidd ddisglair o’i flaen, aberthodd hynny a dychwelyd i Kobe i fyw a phregethu yng nghanol y tlodion yno. Fe gyhoeddodd lyfr yn 1916 a bortreadai amgylchiadau enbyd y teuluoedd tlawd oedd yn byw o’r llaw i’r genau. Er mwyn codi safon byw y gweithwyr aeth ati i sefydlu a threfnu undebau llafur, a chostiodd hynny’n ddrud iddo pan gafodd ei garcharu am feiddio corddi’r dyfroedd. Wedi’i ryddhau, ymgyrchodd yn ddygn dros sicrhau’r bleidlais gyffredinol i holl bobl Siapan a gweithiodd yn y gymdeithas amaethyddol i hybu gwell defnydd o’r tir.

### Cymod

Prif ffocws bywyd Kagawa o ddiwedd dau ddegau’r ugeinfed ganrif ymlaen oedd ei ymdrechion dros heddwch a chymod rhwng pobloedd. Rhaid cofio mai cymdeithas filitaraidd oedd Siapan yr adeg honno. Trechwyd Rwsia’r Tsar yn rhyfel 1905, goresgynnwyd Korea yn 1910 ac ymosodwyd ar Manchuria yn 1931. Yn wyneb hynny, sefydlodd Kagawa’r Gynghrair Wrth-ryfel Genedlaethol yn 1928, gweithred reit beryglus mewn gwlad imperialaidd lle’r oedd y fyddin a’r llynges yn uchel iawn eu bri.

A chymylau’r Ail Ryfel Byd yn dechrau crynhoi, ymgyrchodd Kagawa’n selog yn erbyn ymosodiad Mussolini ar Abyssinia yn 1935 ac yna, er gwaetha’r cyhuddiadau o ‘fradwr’,yn erbyn ymosodiad Siapan ar Tseina yn 1937. Gwyddai fod ei fywyd mewn perygl, ond fe’i taniwyd gan ei gydwybod i wrthwynebu’r rhyfel a’r erchyllterau roedd byddin Siapan yn eu cyflawni yn erbyn pobl Tseina. Yn 1940 gwnaeth Kagawa araith nodedig pan ymddiheurodd i Tseina am yr ymosodiad arnyn nhw, ac fe’i carcharwyd eto am ei ryfyg. Wedi’r rhyfel yn 1946 cyfarfu Kagawa â’r ymerawdwr Hirohito ei hun. Yn ddewr iawn, meiddiodd ddatgan i’r un hollalluog mai dim ond ewyllys pobl gyffredin allai roi awdurdod i’w harweinydd, ac mai trwy wasanaeth yn unig gallai dyn agosáu at fod yn debyg i unrhyw dduw.

### Heddwch

Tan ei farwolaeth yn 1960 cysegrodd Kagawa weddill ei fywyd i i genhadu, ysgrifennu a hyrwyddo heddwch byd-eang. Bu’n awdur 150 o lyfrau, yn cynnwys nofelau o safon, ac fe’i henwebwyd yn aflwyddiannus ar gyfer y Wobr Nobel am Lenyddiaeth. Un o’i gyhoeddiadau pwysicaf oedd *Brotherhood economics* lle mae’n dadlau y dylai’r Eglwys, y Mudiad Cydweithredol a’r mudiad heddwch uno i greu patrwm economaidd amgen i’r byd, seiliedig ar gydweithredu a rhannu cyfoeth. Cafodd ei enwebu hefyd ar gyfer y Wobr Nobel am Heddwch, ond gwrthodwyd hon iddo hefyd. Efalle fod y cof am ran Siapan yn yr Ail Ryfel Byd yn rhy ffres ym meddyliau’r panel dyfarnu.

Gadawodd Toyohiko Kagawa waddol eithriadol o gyfoethog o’i ôl. Os am wybod beth yw ymwadu rhag uchelgais personol er mwyn dangos cariad ymarferol at ein cymydog, does dim angen edrych yn bellach na bywyd y gweledydd cwbl ymroddedig a di-ofn hwn.

**Robat Powell**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)

## CAPEL DRWS-Y-COED – *parhad*

**Mehefin 22** – Y Bonwr Dafydd Iwan
**Mehefin 29** – Parchg Christopher Prew
**Gorffennaf 6** – Parchg Iwan Llewelyn Jones
**Gorffennaf 20** – Y Fon. Esyllt Maelor
**Medi 14** – Parchg R. O. Jones
**Medi 21** – Parchg Dr Rhys Llwyd
**Hydref 5** – Y Bon. Richard Parry Jones
**Hydref 19** – Y Bon. Robert Morris;
**Hydref 26** – Parchg Iwan Llewelyn Jones (Gwasanaeth Diolchgarwch).

Edrychaf ymlaen at fynychu rhai o’r gwasanaethau’r flwyddyn nesaf – gwn y caf groeso yno. Mae nifer o eglwysi a gofalaethau yn trefnu pererindod yn ystod yr haf. Byddai croeso cynnes i chi ymuno â chynulleidfa Drws-y-Coed ar bnawn Sul. Cysyllter trwy e-bost â: o.jones041@btinternet.com

Hoffwn ddiolch i Mr Alwyn Jones, sy’n hanu o deulu Talymignedd, Drws-y Coed ac a fagwyd yn y capel am bob cymorth ac am dynnu rhai o’r lluniau. Diolch hefyd i’m ffrind, Nona Breese am bob help ac am addo llety i mi yn Llanfaglan pan fyddaf yn mynd i rai o’r oedfaon.

**Menna Lloyd Williams, Aberystwyth**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS**
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ**
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pererindota

Aeth aelodau capeli Annibynnol Hendy-gwyn a Sanclêr gyda'i gilydd i gapel Peniel ger Caerfyrddin ar bererindod ganol mis Gorffennaf. Roedd aelodau Peniel wedi paratoi oedfa wych ar y thema o bererindod. Cafwyd hanes pererindodau ar hyd y canrifoedd a hynny i lefydd yng Nghymru ac i lefydd ym mhob rhan o'r byd. Hefyd cafwyd hanes pererindodau aelodau Peniel a Bwlchycorn ar hyd y blynyddoedd.

Fe wnaeth aelodau Peniel hefyd gyflwyno cragen (sef arwydd y pererinion Cristnogol) i'r pererinion. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen yn y festri ar ôl yr oedfa. Yna aethom ymlaen i westy'r Llwyn Iorwg yng Nghaerfyrddin am ginio blasus cyn cychwyn am adref.

Diolch yn fawr i bawb.

**Guto Llywelyn**

# GOHEBIAETH



Annwyl Syr,

Rhaid i minnau ddweud fy mod yn drist iawn o glywed am *Y Tyst*. Rwy'n ei dderbyn ers blynyddoedd maith a'i ddarllen o glawr i glawr, a mwynhau, disgwyl amdano bob wythnos, does gennyf ddim ffordd arall i'w ddarllen.

Yn ddiffuant,
**Megan Williams, Ynys Môn.**

# Cadw Dyddiadau

Byddwch yn cofio i'r pandemig effeithio'n drwm ar weithgarwch y Gymdeithas ac i'r gynhadledd oedd i'w chynnal yn Boston, UDA i ddathlu 400 mlwyddiant glaniad y tadau pererin yn 1620 gael ei chanslo.

Ymunodd amryw yn y gynhadledd undydd, rithiol a gynhaliwyd yn 2021 gan werthfawrogi'r arlwy gyfoethog o gyflwyniadau a gafwyd. Pellter y daith i Fiji, yn anad un dim arall, a gadwodd yr Annibynwyr o Gymru o gynhadledd 2023.

Bellach, y mae'n llawenydd datgan bod cynhadledd yn cael ei threfnu ar gyfer 2025, i'w chynnal yn Thesaloniki yng ngwlad Groeg ar 22–26 Mai. Cost y gynhadledd fydd oddeutu $1350 heb gynnwys costau teithio.

Disgwyliwn yn eiddgar am fanylion pellach.

International Congregational Fellowship

## Diwrnod i Arweinwyr Addoliad, Pregethwyr Cynorthwyol, a darpar Bregethwyr Cynorthwyol

Ydych chi'n Arweinydd Addoliad, yn Bregethwr Cynorthwyol, neu yn ystyried cychwyn arwain addoliad, boed hynny yn eich eglwys leol, neu mewn eglwysi eraill?

Os ydych, carem eich gwahodd i ddiwrnod arbennig wedi ei drefnu ar eich cyfer chi.

**Dydd Gwener, 20 Medi 2024**
**10:00 - 3:30 o'r gloch yn Llety'r Parc, Aberystwyth**

Yn ystod y diwrnod, bydd rhai o'r unigolion sydd wedi dilyn y modiwl 'Addoli a Phregethu' yn ddiweddar yn cyflwyno myfyrdod.

Hefyd, bydd cyfle inni ymuno mewn dwy sesiwn arbennig, sef:

**'Y Celfyddydau mewn Addoliad - Parchg Owain Llyr Evans**
**'Addoliad Pob Oed' - Parchg Beti-Wyn James**

I gofrestru, cysylltwch â'r Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau:
carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**

*Trefnir y diwrnod dan nawdd Cynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*